CYNGOR CYMDEITHAS LLANFACHRAETH
COFNODION CYFARFOD IONAWR 28ain 2020
A GYNHALIWYD YN FESTRI CAPEL PONT YR ARW LLANFACHRAETH.

PRESENNOL.
Cyng Mrs E J Bryant (Cadeiryddes) B Rowlands (Is-Gadeirydd) W G Roberts, M Woodward, I G Evans, Mrs M Jones, Cyng Sirol K P Hughes, Mrs D Hughes (Cyfiethyddes) ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU. Neb

CYNGHORWYR YN DATGAN DIDDORDEB. A FFURFLEN I'W ARWYDDO. Cyng Sirol K P Hughes. Cynllunio.

COFNODION 26ain TACHWEDD 2019 YN GYWIR. Cafwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Cyng M Woodward eilio Cyng B Rowlands.

CODI O'R COFNODION.
Cae Chwarae. Cyng B Rowlands yn cadarnhau bydd y rwber yn cael ei symud yn fuan. Bydd y Cyngor Sir yn talu. Gobeithi'r bydd cynnydd erbyn cyfarfod Chwefror.

Mae ymateb gan Bragdy Lees, perchnogion Holland, Llanfachraeth (Mr Dan Evans) i gael gosod Diffibrilydd. Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly symud ymlaen yn awr, y Cyngor i'w brynu a talu am ei osod. Cynnig Cyng B Rowlands eilio Cyng Mrs M Jones. Cyng W G Roberts i wenud y trefniadau.

CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.

1. FPL2019/278. Cais llawn ar gyfer dymchwel adeiladau Ysgol presennol a codi 8 anned ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir yn:- (Dywygledig.)
   Ysgol Gymuned, Llanfachraeth.
   Y Cyngor ddim yn gwrthwynebu 4 bynglo a 4 o dai. Wedi ei gadarnhau. Cynnig Cyng B Rowlands, eilio Cyng Mrs M Jones.

2. Cais llawn ar gyfer adeiladu garej dwbl yn:-
   Rhos ddu, Llanfachraeth.
   Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng I G Evans, eilio Cyng M Woodward.

3. Gwybodaeth.
   JMD Design & Buildings Ltd.
   Tir / Ger Stad Roebuck, Llanfachraeth. Datblygiad Arfaethedig. 31 Annedd Preswyl Newydd.
   Y Cyngor yn unfrydol nad yw'r fan yn addas i ddatblygu fel atebwyd i gais amser yn ol. Disgwyl am gynllun gan y Cyngor Sir.

PENDERFYNIADAU.

4. Dim.

GOHEBIAETH. CYNGOR SIR YNYS MON

5. Swyddog Canlyniadau Gweithredol.
   Rheoliadau Adolygu Rhanbarthau Pleidleisio a Lleoedd Pleidleisio (Etholiadau Seneddol)2006. Derbyn.

6. Rheolwr Refeniw.
   Praeseptau Cynghorau Cymuned / Tref 2020/21. Band D 229.19.
   Y Clerc yn cyflwyno amcangyfrif i'r Cynghorwyr. Rhaid cofio bod y Cae Chwarae yn gyfrifoldeb aruthrol ar y Cyngor yn enwedig os bydd angen trwsio'r offerau. Deimlad y Clerc oedd nad oedd angen cynyddiad mawr eleni ond efallai y buasai yn werth codi ar gyfartaledd chwyddiant. Trafodwyd ar ol cael golwg ar y ffigurau. Trwy gynnig Cyng B Rowlands, eilio Cyng W G Roberts i adael fel ac y mae *(Cyfanswm £8,074.00)* Unfrydol.

GOHEBIAETH ARALL.

7. Cyngor Tref Caergybi.
   Gweithgareddau Cae Chwarae.
   Angen talu am dorri glaswellt a strimio ac yn cynnwys archwilio'r offerau. £1,315,65. Pasiwyd yn unfrydol i dalu'r ddyled.
   Cafwyd amcangyfrif am gwasanaethau amaethyddol 1af Ebrill i 30ain Medi 2020. 11 torriad a 13 archwiliad y Parc am yr un swm ac eleni £1,315,65. (TAW yn y pris)
   Ond ni fydd y Cyngor angen ei gwasanaeth am 2020. Nid oedd y gwaith yn ddigon da. Unfrydol.

8. *Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.*

9. Rhun ap Iorwerth AC.
   Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Bill Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Ddiweddar. Gwybodaeth. Derbyn dim sylw.

10. Medrwn Mon.
    Pencampwr Cymunedol.
    Dim Cangen Merched y Wawr yn Llanfachraeth, teimlad y dylid dod a'r wybodaeth i sylw y Cyngor Cymdeithas. Derbyn cadw mewn golwg.

11. M Owen. Cofnod arolygu gweithredol chwarterol.
    Derbyn a gofyn iddo a ydyw yn gwybod am rhywun sydd ar gael i drwsio offerau.
    Mae yn rhaid cael ffensio yr afon yn y Cae Chwarae, rhaid cael pris i symund ymlaen.
    Mae yn dod i fynnu yn nodiadau archwiliad chwarterol.

12. Amanda Cashmore. BBC Cymru.
    Lladradau Bedd Ynys Mon.
    Gweithio ar stori am lladradau beddi yng Nghymru. Edrych faint sydd wedi digwydd i Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Mon yn 2019 a faint yn 2018. Derbyn nid oes dim i adrodd.

13. Alun Foulkes (Archwiliad Mewnol) yn cynnig ei wasanaeth eto eleni am gyfanswm o £100.00. bwriad cwblhau pob archwiliad erbyn diwedd Mai / canol Mehefin. Derbyn. Cynnig Cyng M Woodward, eilio Cyng B Rowlands. (Unfrydol)

14. Menter Mon.
    Gwahoddiad: Digwyddiad Cartrefi Hapus Carbon Isel 7.2.20. Neuadd y Dref, Llangefni rhwng 9.30 a 12yp. Derbyn y wybodaeth.

RHODDION.

15. Dim.

PLWYFOL.

16. Hysbysford ar wal y Neuadd angen cefn newydd. Cyng M Woodward yn edrych i fewn.

MATERION ARIANNOL.

17. RHEDEGOL. £4,769.12.
18. CYNILO. £3,226.50
19. I'W TALU.
    Clerc £100.00. (2 Fis) Mrs D Hughes £35.00. (Cyfleithu) (Offer Cyfleithu) £35.00. Gweinyddu (3mis) £134.12. M Owen (Archwilio Cae Chwarae) £43.36. Cyngor Tref Caergybi (Torri glaswellt ac archwilio) £1,315.65.
    Derbyn y balans a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng B Rowlands, eilio Cyng M Woodward.

25/2/20